

# Strwythur Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy i'r Dyfodol

Mae Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn cynrychioli masnach ac yn cynnwys 23 o aelodau.

Mae'r strwythur arfaethedig fel a ganlyn:

Cadeirydd Bwrdd Strategol Cyrchfan Conwy – sef, ar hyn o bryd, y Cyng. Graham Rees (Aelod Cabinet Twristiaeth)

Rheolwr Busnes a Thwristiaeth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) - Jon Merrick

Rheolwr Cyrchfan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) - George Brookes

Cymorth Gweinyddol - a ddarperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol

Darparwyr Atyniadau - un aelod ar gyfer arfordir Sir Conwy, un aelod ar gyfer yr ardal wledig ac un aelod arall

Darparwyr Llety - o sectorau gwahanol o'r diwydiant h.y. gwestai, llety â gwasanaeth, hunanarlwyo, safleoedd carafannau a gweryslla ac ati

(Bydd yn rhaid i unrhyw gais gan gynrychiolydd o sector penodol ddangos y gallu i gysylltu â chynulleidfa ehangach yn eu dewis sector. Hefyd, rhoddir ffafriaeth i gynrychiolwyr sefydliadau masnach perthnasol e.e. Cymdeithasau Lletygarwch Lleol / Rhanbarthol)

Cyfanswm o bum cynrychiolydd ardal ynghyd â dau gynrychiolydd ychwanegol ar gyfer ardal Llandudno

Aelodau Sefydliadau Statudol - i gynrychioli'r gwahanol sefydliadau sydd â diddordeb twristaidd yn Sir Conwy:

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Parc Cenedlaethol Eryri

Plas y Brenin

Croeso Cymru

RSPB

Darparwyr Cludiant Cyhoeddus (cwmni bysiau neu debyg)

Yn ogystal, un cynrychiolydd o bob un o'r sefydliadau canlynol sydd â diddordeb strategol yn y cyrchfan:

Stad Mostyn

Ardal Gwella Busnes Bae Colwyn

Conwy Naturiol (grŵp twristiaeth bwyd gwledig)

Sector Manwerthu

Sector Mentrau Cymdeithasol

Gellir gwahodd swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy / sefydliadau eraill yn cael yr angen i gyflwyno neu ymateb i eitem ar y rhaglen.

Os bydd unrhyw aelod o'r Grŵp Llywio, sy'n cynrychioli sefydliad neu'n aelod annibynnol, yn dymuno ymddiswyddo o'r Grŵp Llywio yna bydd yn rhaid iddo gyflwyno ei ymddiswyddiad yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd. Er y gall yr aelod sy'n ymddiswyddo argymhell rhywun yn ei le, mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Grŵp Llywio cyn y gellir caniatáu i'r person hwnnw fynychu cyfarfodydd.

Mae'n rhaid i aelodau sy'n cynrychioli sefydliad penodol gael cymeradwyaeth barhaus i wneud hynny gan eu sefydliad. Petai'r gymeradwyaeth hon yn cael ei thynnu'n ôl am unrhyw reswm yna byddai'n rhaid i'r sefydliad hysbysu'r Cadeirydd yn ysgrifenedig a chyflwyno enw eu cynrychiolydd newydd ar gyfer cymeradwyaeth y Grŵp Llywio.